**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd yn Neuadd Rhoshirwaun, nos Lun, Ionawr y 9fed 2023**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Mari Evans, Wil Evans, Emlyn Jones, Jaci Jones, Dafydd Myrddin, Nesta Roberts, RJ Williams a'r Cyng Gareth Williams (Cynghorydd Sir)
**Yn y gadair: Cyng Wenda Williams**
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dewi Evans, Gwenllian Hughes Jones, Tim Rosa a Dafydd Williams
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau. Cydymdeimlwyd gyda Glenys Peters, cyn glerc i'r Cyngor a'r teulu yn dilyn colli Cai.
**3)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Ragfyr 2022;** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**4) Materion yn codi o'r cofnodion**
i)**Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:** Dim wedi eu derbyn hyd yma.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Adroddwyd fod diwrnod agored buddiol wedi ei gynnal cyn y Nadolig er mwyn cael barn pobl yr ardal am ddyfofol yr Eglwys Newydd. Mae dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yr holiaduron yr wythnos yma ac fe wnaiff Caryl Lewis lunio adroddiad yn dilyn asesu y canlyniadau.
Nodwyd fod angen gwario yr arian grant AHNE ac AHF cyn diwedd Chwefror a bod £7,000 wedi ei neilltuo tuag at wneud gwaith trwsio dros dro i'r eglwys. Yn dilyn penderfyniad fod rhoi rhwyd dros do yr eglwys fel mesur dros dro yn rhy gostus a bod cais datgan diddordeb am arian grant i adnewyddu y to wedi ei gyflwyno i Cadw cyn y Nadolig, penderfynwyd diweddaru yr adran AHNE ar y sefyllfa. Mae angen atgoffa Matt Osmont am bris wedi ei ddiweddaru ar gyfer costau creu cynlluniau manwl ar gyfer y gwaith, yn dilyn derbyn y pris, gellir gofyn i'r Swyddog Ahne os ydi hi yn bosib defnyddio yr arian sydd yn weddill ar gyfer y costau pensaerniol yma.
Adroddodd y clerc ei fod wedi siarad gyda John Gwynfor Jones ac nid oedd yn gweld rheswm i beidio a defnyddio y rhan o'r fynwent ar ochr clawdd cae Bodernabwy sydd yn wag ar gyfer lle i feddau. Hefyd derbyniwyd ymholiad gan John Gwynfor Jones ynghylch y posibilrwydd o ddefynddio y lle i un bedd sydd rhwng diwedd y rhesi presennol a chlawdd y Coachouse, mae cais wedi ei wneud i gladdu y diweddar Richard Ellis wrth ochr bedd ei rieni ar ben un o'r rhesi yma. Penderfynwyd rhoi caniatad.
**iii)Clwb Ieuenctid:** Derbyniwyd llythyr gan Sion Bryn Roberts yn datgan ei fod wedi cysylltu gyda pwyllgor Canolfan Deunant a'u bod yn fodlon gyda telerau ariannu y Clwb Ieuenctid, sef talu traean o'r gost. Hefyd gobeithir y bydd tri goruchwyliwr yn gofalu am y clwb ieuenctid ddechrau'r flwyddyn. Fe wnaiff gael sgwrs gyda'r bobl ifanc yn dilyn adroddiadau eu bod yn mynd allan o'r ganolfan, ond nid oes hawl gan y goruchwylwyr i'w hatal rhag gadael yr adeilad.
**iv)Hysbysfyrddau:** Adroddywd fod cais am grant i brynu hysbysfyrdd newydd i Aberdaron a'r Rhiw wedi ei ganiatau gan Gronfa AHNE Llŷn.
**5) Gohebiaethau**
**i)Llythyr gan Gyngor Gwynedd ynghylch cyfyngiadau 20mya:** Derbyniwyd y wybodaeth. Trafodwyd y ffaith nad oes cyfyngiad cyflymder yn mhentref Y Rhiw, a phenderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd os oes posib cael cyfyngiad 30mya yno.
**ii)Llythyr gan feddygfa Nefyn ynghylch ad-daliad cyfraniad Covid:** Derbyniwyd llythyr gan Dr Arfon Williams o Feddygfa Nefyn yn cynnig ad-dalu cyfran o'r cyfraniad a roddwyd i'r feddygfa gan y Cyngor Cymuned yn 2020 gan nad ydi yr holl arian wedi ei wario. Opsiwn arall a gynigwyd oedd rhoi yr arian i gynnal adnodd megis banc bwyd neu dalebau tanwydd. Penderfynwyd gofyn am yr arian yn ôl er mwyn ei ddefnyddio er budd cymuned Aberdaron.
**iiii)Llythyr gan Gyngor Tref Pwllheli ynghylch y gwasanaeth Ambiwlans Awyr:** Penderfynwyd cefnogi Cyngor Tref Pwllheli yn eu cais am gyfarfod cyhoeddus i drafod lleoliad yr ambiwlans awyr.
**iv)Llythyr gan Yes Cymru yn gofyn am gyfraniad tuag at yr achos:** Penderfynwyd mai mater i'r unigolyn ydi cyfranu tuag at achos gwleidyddol o'r math yma.

**6) <u>Cynllunio</u>**
Dim ceisiadau wedi eu derbyn
**7)Ariannol**
**Pennu praesept ar gyfer 2023-24:** Cyflwynwyd cyllideb ac adroddiad ariannol i'r Cyngor. Trafodwyd y costau a ragwelir yn ystod y flwyddyn sydd i ddod a'r ffaith fod gwariant sylweddol yn angenrheidiol ar yr Eglwys Newydd. Trafodwyd y swm sylweddol o arian sydd gan y Cyngor yn y cyfri cyfredol, a nodwyd y bydd yn angenrheidiol gwario yr arian yma ar adnewyddu yr eglwys. O ystyried y cyfnod o galedi sydd yn wynebu pawb ar hyn o bryd oherwydd costau nwyddau, penderfynwyd peidio a chodi y praesept eleni a gofyn am yr un swm a llynedd sef £15,000.
**Taliadau**
Awdurdodwyd talu yr isod:
Iwan Hughes: £195.53
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
**Derbyniadau**
Dim wedi eu derbyn
**8) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**
i)Mae twll yn y ffordd ger Bryn Ffynnon, Rhoshirwaun a hefyd mae tyllau yn y ffordd rhwng Y Rhiw a Mynytho, yn enwedig o'r Ynys hyd at Llwyndy.
ii)Adroddwyd fod y gwifreni BT yn parhau i fod yn hongian oddi ar y polion ar allt Y Rhiw, penderfynwyd cysylltu gyda BT unwaith eto i gwyno.
iii)Derbyniwyd cwyn ynghylch yr adwy yn y Wilds, Aberdaron sydd heb ei chau yn unol â'r amod cynllunio.
iv)Gwnaed cais am arwydd 'Dim loriau' ym mhen lôn Felin Uchaf ger Glan Gors.
v)Nid yw y wal sydd wedi syrthio i'r lôn ar y gornel ger yr hen dŷ plisman wedi ei hadfer. Penderfynwyd atgoffa Cyngor Gwynedd.
vi)Mae rhan o wal mynwent Eglwys Aelrhiw wedi syrthio i'r lôn. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen at Gyngor Gwynedd.
vii)Adroddwyd fod bwi mawr wedi ei olchi i'r lan yn y Wîg, ar draeth Aberdaron. Penderfynwyd hysbysu yr Adran Forwrol.
viii)Derbyniwyd dwy gwyn am y drefn trefnu apwyntriadau yn Meddygfa Rhydbach, penderfynwyd eu hanfon ymlaen i reolwr y feddygfa.
ix)Derbyniwyd adroddiad fod y cais am sied yn Pant Valley, Rhoshirwaun wedi ei wrthod gan Gyngor Gwynedd ar y sail nad ydi yr ymgeisydd angen sied a bod y cais mewn ardal o harddwch, mae'r Cyngor o'r farn fod y rhesymau yma dros wrthod yn rhai gwan. Penderfynwyd gofyn i'r Adran Gynllunio am y rhesymau dros wrthod.
x)Mae pont ar y llwybr arfordir ger Porth Meudwy wedi pydru ac yn beryglus, penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Neuadd Y Rhiw, nos Lun, y 12fed o Chwefror.**